***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 723 (Cy. 109) (C. 37)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 5) 2023

*Gwnaed - - - - 28 Mehefin 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 29(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 5) 2023.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Gorffennaf 2023

**2.** Daw adran 19(3) a (4) (cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd) o'r Ddeddf i rym ar 1 Gorffennaf 2023.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Mehefin 2023

(**1**) 2020 dsc 1.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn a wneir gan Weinidogion Cymru yn dwyn i rym weddill y darpariaethau yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 19(3) a (4) o'r Ddeddf ar 1 Gorffennaf 2023. Mae adran 19(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd ("y Cod") a lunnir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o'r Ddeddf. Mae adran 19(4) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i bob awdurdod lleol a chorff GIG roi sylw i'r Cod (i'r graddau y mae'r Cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 24 | 8 Mawrth 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 26 | 8 Mawrth 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 12 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 19 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 21 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 22 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 4 (yn rhannol) | 7 Mawrth 2023 | 2023/259 (Cy. 36) (C. 13) |
| Adran 11 (yn rhannol) | 7 Mawrth 2023 | 2023/259 (Cy. 36) (C. 13) |
| Adran 25 | 7 Mawrth 2023 | 2023/259 (Cy. 36) (C. 13) |
| Adran 28 | 7 Mawrth 2023 | 2023/259 (Cy. 36) (C. 13) |
| Adran 23(3) | 29 Mawrth 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Adrannau 1 i 3 | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Adran 4 (y gweddill) | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Adrannau 5 i 10 | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Adran 11 (y gweddill) | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Adrannau 13 i 20 | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Adran 23(1) a (2) | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Adran 27 | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Atodlen 1 (ac eithrio paragraffau 6, 7, 8 a 22 o'r Atodlen honno) | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Paragraff 22 o Atodlen 1 | 1 Hydref 2022 | 2022/996 (Cy. 212)(**2**) |
| Atodlen 2 | 29 Mawrth 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Paragraffau 6, 7 ac 8 o Atodlen 1 | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |
| Atodlen 3 | 1 Ebrill 2023 | 2023/370 (Cy. 56) (C. 16) |

*Gweler* hefyd adran 29(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2020 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).

(**2**) Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.